



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

**Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwyso
Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n mynychu ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau yn datgymhwyso gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwyddoniaeth mewn perthynas â disgybl os yw pennaeth yr ysgol wedi'i fodloni bod y disgybl yn dilyn cwrs sy'n arwain at gymhwyster allanol a gymeradwywyd o dan y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ar lefel mynediad, ar lefel 1 neu ar lefel 2.

Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd Cyngorwyr Cyfreithiol y cyfle i ystyried drafft cynharach o'r Rheoliadau hyn ac ystyriwyd pwynt adrodd posibl yn y drafft presennol. O ganlyniad, ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Sylwadau

Mae Rheoliad 2 yn cynnwys cyfeiriadau at ACCAC (a ddiddymwyd erbyn hyn) a'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Awgrymir y byddai troednodyn i Orchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a

Diddymu) 2005 (OS 2005/3239 W.244) o gymorth i'r darllenydd, yn arbennig wrth ystyried y cyfeiriadau at gyn swyddogaethau ACCAC a drosglwyddwyd i'r Cynulliad erbyn hyn, fel y cyfeiriwyd atynt yn niffiniad y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Gellir cynnwys hwn wrth gyhoeddi.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

2 Mai 2006